# Fframwaith ar gyfer Plant a Phobl Ifanc â Nam ar y Golwg (CFVI)



Developed with

RNIB
See differently

UNIVERSITY OF BIRMINGHAM

VIEW

TPT Thomas Pocklington Trust

## Cynnwys


**3** Pam ydyn ni wedi datblygu fframwaith newydd?

**5** Beth yw'r prosiect 'fframwaith cwricwlwm nam ar y golwg arbenigol gwledydd Prydain'?

**6** Beth ydyn ni'n ei olygu wrth 'fframwaith' a pha fanteision fydd i fframwaith newydd?

**7** A yw'r fframwaith newydd yn addas i'w ddefnyddio ledled gwledydd Prydain?

**8** Sut bydd y fframwaith yn helpu plant a phobl ifanc sydd â nam ar y golwg?

**8** Sut bydd y fframwaith yn helpu rhieni plant a phobl ifanc sydd â nam ar y golwg?

**9** Sut bydd y fframwaith yn helpu gweithwyr proffesiynol ym maes addysg gyda phlant a phobl ifanc sydd â nam ar y golwg?

**10** Sut datblygwyd fframwaith newydd gwledydd Prydain?

**12** Pam ydyn ni'n datblygu hyb adnoddau ar-lein i gyd-fynd â'r fframwaith?

**12** Pa adnoddau fydd wedi'u cynnwys yn yr hyb a sut galla i gyfrannu adnodd?

**13** Beth yw'r hyb adnoddau ar-lein a sut mae cael mynediad ato?

**13** Pa fodel damcaniaethol sy'n sail i'r fframwaith hwn?

**15** Beth yw meysydd canlyniad fframwaith allweddol?

**15** Pa gamau cychwynnol alla i ddechrau eu cymryd i weithredu'r fframwaith newydd yn fy ngweithle / gwasanaeth?

**16** Sut mae modd olrhain cynnydd plant a phobl ifanc yn erbyn y fframwaith newydd?

**16** Sut mae'r fframwaith newydd yn wahanol/yn well na'r rhai sydd ledled gwledydd Prydain ar hyn o bryd?

**17** Sut bydd y fframwaith yn cael ei werthuso?

**17** Pa sefydliadau/partneriaid oedd yn hanfodol yn natblygiad y fframwaith?

**17** Cwestiynau pellach?

## Pam ydyn ni wedi datblygu fframwaith newydd?

Mae pwysigrwydd fframwaith arbenigol ar gyfer addysg nam ar y golwg sy'n mynd i'r afael â'r anghenion datblygu a dysgu penodol sy'n gysylltiedig â dallineb a golwg rhannol, ac sydd hefyd yn adlewyrchu'r sgiliau unigryw sydd eu hangen ar ddysgwyr â nam ar y golwg, yn cael ei gydnabod yn eang ym maes addysg nam ar y golwg.

Mae angen i blant a phobl ifanc sydd â nam ar y golwg ddysgu ystod o sgiliau arbenigol sy'n hyrwyddo dysgu annibynnol, symudedd, byw bob dydd a chyfathrebu cymdeithasol. Mae tystiolaeth ymchwil wedi dangos bod plant a phobl ifanc â nam ar y golwg sy'n dysgu'r sgiliau hyn yn llawer mwy tebygol o gyflawni canlyniadau hirdymor gwell na'r rhai nad ydynt yn eu dysgu, o ran trosglwyddo'n llwyddiannus i fod yn fwy annibynnol yn ystod bywyd fel oedolyn. Mae angen cymorth arbenigol uniongyrchol o ansawdd uchel i ddysgu'r sgiliau hyn; maen nhw'n sgiliau y mae plant a phobl ifanc â golwg yn eu dysgu yn naturiol neu'n sgiliau nad oes eu hangen ar blant a phobl ifanc â golwg, er enghraifft llythrennedd drwy Braille neu gymhwysedd (sgiliau symudedd ac annibyniaeth).

Mae poblogaeth plant a phobl ifanc â nam ar y golwg yn amrywiol ac mae'n cynnwys plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu mewn lleoliadau prif ffrwd a'r rhai sy'n cael eu haddysgu mewn ysgolion neu golegau arbennig sydd ag ystod o ddynodiadau e.e. anawsterau dysgu difrifol neu anableddau dysgu dwys a lluosog. Serch hynny, yr hyn sydd gan y plant a'r bobl ifanc hyn yn gyffredin yw eu bod yn cyflawni canlyniadau mwy cadarnhaol yn yr hirdymor pan fyddan nhw'n cael addysg arbenigol o ansawdd – sy'n wahaniaethol i fodloni eu hanghenion unigol – gan arbenigwyr ym maes addysg nam ar y golwg (hynny yw athrawon cymwys ar gyfer plant a phobl ifanc â nam ar y golwg (QTVI) ac Arbenigwyr Cymhwysedd Cymwys Cofrestredig (RQHS)).

Hyd yma, mae sawl cwricwlwm a fframwaith canlyniadau arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc â nam ar y golwg wedi cael eu defnyddio yng ngwledydd Prydain, ond dim un â statws statudol.

Gall bod ag ystod o'r fath o gwricwla a fframweithiau canlyniadau arwain at ddiffyg eglurder o ran yr hyn y dylid ei addysgu, pryd caiff ei addysgu, a phwysigrwydd ei addysgu gan weithiwr arbenigol cymwys addas. Mae hyn, a'r ffaith bod diffyg geirfa a rennir, yn gallu peri anawsterau wrth gyfathrebu gyda'r sector anarbenigol bod angen i'r sgiliau hyn gael eu haddysgu a phwy sydd â chyfrifoldeb dros beth. Mae'r gwahaniaethau hyn mewn darpariaeth ledled gwledydd Prydain yn gallu golygu bod "loteri cod post" o ran pa sgiliau a gaiff eu haddysgu a'u datblygu gan blant a phobl ifanc â nam ar y golwg. Nid yw'r ffaith fod nam ar y golwg mewn plentyndod yn anabledd lle mae'r niferoedd yn isel yn helpu'r sefyllfa, ac mae polisi addysg ac arfer yn dueddol o ganolbwyntio ar anghenion grwpiau poblogaeth mwy.

Drwy gydweithio ag athrawon arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc â nam

ar y golwg, darganfu cymdeithas broffesiynol y Gweithlu Addysg Nam ar y Golwg (VIEW), er bod ystod eang o adnoddau a strategaethau'n cael eu datblygu i gefnogi addysgu cwricwlwm arbenigol, bod y mentrau hyn yn digwydd yng ngwasanaeth cymorth awdurdodau lleol unigol ac mewn ysgolion ar gyfer plant a phobl ifanc â nam ar y golwg yn hytrach nag yn rhan o strategaeth ehangach a chydlynus. Canfu VIEW hefyd fod yr athrawon dan sylw yn awyddus i rannu syniadau a'u hadnoddau ac i ddysgu gan ei gilydd.

Canfu ymgynghoriad pellach a gynhaliwyd gan VIEW gydag athrawon arbenigol ac academyddion ym maes nam ar y golwg fod brwdfrydedd am brosiect i ddatblygu **fframwaith cwricwlwm nam ar y golwg** arbenigol ledled Prydain, ac am gefnogi'r gwaith o ddatblygu a rhannu adnoddau addysg y gellir eu defnyddio i ddarparu'r cwricwlwm ar lawr gwlad.

Mae amseriad y prosiect i ddatblygu cwricwlwm newydd yn hanfodol gan ei fod yn cyd-fynd â:

- Newidiadau allweddol mewn hyfforddiant athrawon, gan gynnwys adolygiad o'r cymhwyster hanfodol ar gyfer athrawon
- plant a phobl ifanc sydd a nam synhwyrau (nam ar y golwg, nam ar y clyw, nam amlsynhwyraidd).
- Toriadau cyllidebol i wasanaethau cymorth addysg dros y blynyddoedd diwethaf
- Dirprwyo cyllid a chyfrifoldebau AAA yn gynyddol oddi wrth awdurdodau lleol i ysgolion unigol.
- Gofynion cynyddol y cwricwlwm academaidd o ganlyniad i ddiwygiadau addysg diweddar, gan gyfyngu'r amser sydd ar gael ar gyfer addysg anacademaidd.

Mae'r pwyntiau hyn, ynghyd â'r ymagweddau anghyson tuag at addysgu sgiliau arbenigol a ddisgrifir uchod, yn creu tirwedd gymysglyd sy'n ei gwneud yn anodd i'r proffesiwn addysg arbenigol gael y negeseuon allweddol at ysgolion, adrannau llywodraeth leol (sy'n dylanwadu ar wariant cyllidebol ar lefel leol) a swyddogion adran addysg y llywodraeth (sy'n dylanwadu ar bolisi cenedlaethol). Yn gynyddol, mae hyn yn cael effaith negyddol ar ddarpariaeth arbenigol. Mae felly'n bwysicach nag erioed sicrhau darpariaeth gydlynus a chyson pan ddaw at y cwricwlwm arbenigol. Bydd hyn yn helpu i atal y gwaith o addysgu'r sgiliau arbenigol hyn rhag cael ei ddadflaenoriaethu wrth i gyllidebau tynnach annog blaenoriaethu mathau eraill o ddysgu dros y sgiliau arbenigol hanfodol sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc â nam ar y golwg.

**I gloi, mae gwaith ymgynghori ac ymchwil wedi tynnu sylw at yr angen am un fframwaith unedig, wedi'i lywio gan gwricwla/fframweithiau nam ar y golwg arbenigol sydd eisoes yn bodoli, fel sail i addysg plant a phobl ifanc â nam ar y golwg yng ngwledydd Prydain.**

## Beth yw'r prosiect 'fframwaith cwricwlwm nam ar y golwg arbenigol gwledydd Prydain'?

Lansiodd y Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB) mewn partneriaeth â'r gymdeithas broffesiynol ar gyfer y Gweithlu Addysg Nam ar y Golwg (VIEW), y Ganolfan Nam ar y Golwg ar gyfer Addysgu ac Ymchwil (VICTAR) ym Mhrifysgol Birmingham, ac Ymddiriedolaeth Thomas Pocklington (TPT) brosiect yn 2020 i fynd i'r afael â'r anghenion sydd wedi'u hamlinellu yn yr adran: **'Pam ydyn ni wedi datblygu fframwaith newydd?'.**

**Mae gan y prosiect ddwy elfen graidd:**

**Elfen 1:** Sefydlu un fframwaith arbenigol ledled gwledydd Prydain ar gyfer plant a phobl ifanc â Nam ar y Golwg.

Mae'r prosiect dwy flynedd, a ariennir gan yr RNIB, yn ymgynghori'n eang ledled y sector nam ar y golwg i ddarparu un fframwaith unedig ar gyfer elfennau arbenigol addysg nam ar y golwg, gyda'r nod o roi eglurder, cysondeb darpariaeth i blant a phobl ifanc, a geirfa a rennir ar gyfer pobl nad ydynt yn arbenigwyr yn ogystal â gweithwyr addysg arbenigol nam ar y golwg.

**Elfen 2: Creu hyb adnoddau proffesiynol ar-lein i letya adnoddau a theclynnau sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r fframwaith yn ymarferol.**

**Fel y nodir yn fanylach yn yr adran:**

**'Pam ydyn ni wedi datblygu fframwaith newydd?'.** Mae VIEW wedi darganfod bod ystod eang o adnoddau a strategaethau yn cael eu datblygu i gefnogi'r gwaith o addysgu fframwaith cwricwlwm arbenigol mewn gwasanaethau ac ysgolion nam ar y golwg unigol ledled gwledydd Prydain. Mae'r mentrau hyn yn digwydd yng ngwasanaethau cymorth awdurdodau lleol unigol ac mewn ysgolion ar gyfer disgyblion â nam ar y golwg yn hytrach nag fel rhan o strategaeth ehangach gydlynus. Rydyn ni'n gwybod bod yr athrawon dan sylw yn awyddus i rannu syniadau a'u hadnoddau ac i ddysgu gan ei gilydd.

Nod y prosiect yw annog a chefnogi cydweithwyr yn y sector i rannu strategaethau ac adnoddau maen nhw wedi'u datblygu gyda'r sector yn ehangach drwy ddarparu hyb hygyrch ar-lein sydd am ddim y gall y sector lanlwytho adnoddau iddo a'i ddefnyddio fel man cyfeirio cyntaf ar gyfer dod o hyd i adnoddau a gwybodaeth sy'n berthnasol i addysgu'r sgiliau arbenigol angenrheidiol. Gobeithiwn y bydd hyn yn annog diwylliant o rannu gwybodaeth a fydd yn ei dro yn arbed amser, ac yn gwella effeithlonrwydd a chysondeb yn yr hyn sy'n cael ei addysgu ledled Prydain. Mae'r elfen hon o'r prosiect yn cynnwys adnabod a chatalogio ystod eang o adnoddau a strategaethau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar draws y sector, ynghyd â dadansoddiad bylchau o ran ble mae adnoddau'n isel er mwyn i waith datblygu yn y dyfodol gael ei dargedu yno.

## Beth ydyn ni'n ei olygu wrth 'fframwaith' a pha fanteision fydd i fframwaith newydd?

Mae'r fframwaith yn adnodd lefel uchel ledled Prydain sy'n manylu ar y meysydd allweddol lle mae angen cymorth arbenigol ar blant a phobl ifanc â nam ar y golwg a'u teuluoedd. Mae'n egluro ac yn diffinio elfennau o ddatblygu sgiliau arbenigol, ymyriadau a chymorth arferion gorau sy'n hanfodol i blant a phobl ifanc â nam ar y golwg. Mae hefyd yn galluogi rhieni i ddeall llwybrau cymorth ar gyfer eu plentyn a'r gwasanaethau sy'n rhan o ddarparu'r cymorth hwnnw. At hynny, mae'r fframwaith yn tynnu sylw at gyfrifoldeb pobl nad ydynt yn arbenigwyr i gefnogi'r gwaith o ddarparu cynnwys y fframwaith hwn fel rhan o'u hymrwymiadau ehangach i gynhwysiant addysgol.

Datblygwyd y fframwaith i helpu i wella'r canlyniadau i blant a phobl ifanc â nam ar y golwg ledled yr ystod gyfan o allu ac anghenion. Gall wneud cyfraniad cadarnhaol i'w llesiant emosiynol hirdymor drwy helpu i sicrhau eu bod yn datblygu i fod yn oedolion â'r sgiliau priodol, a'u bod yn cyflawni yn unol â'u gallu gwybyddol sylfaenol ac yn cyflawni eu llawn botensial.

Mae datblygiad y fframwaith wedi'i lywio gan broses ymgynghori graddfa fawr (gan ddefnyddio dull Delphi). Roedd y broses yn cynnwys tair rownd ymgynghori gydag ystod o randdeiliaid (e.e. plant a phobl ifanc â nam ar y golwg, rhieni, athrawon cymwys ar gyfer plant a phobl ifanc â nam ar y golwg, Arbenigwyr Cymhwysedd Cymwys Cofrestredig, ynghyd ag arbenigwyr eraill sy'n rhan o'r gwaith o ddarparu addysg a chymorth i blant a phobl ifanc â nam ar y golwg) gan ddefnyddio grwpiau ffocws a holiaduron. Bydd y fframwaith yn integreiddio ac yn cyd-fynd â'r cwricwlwm academaidd y mae gan bob plentyn hawl iddo. Mae wedi'i lywio gan fframweithiau sy'n bodoli gan gynnwys y Cwricwlwm Craidd Estynedig (ECC) yng Ngogledd America, Canlyniadau Dysgwyr y Bartneriaeth Genedlaethol Namau Synhwyraidd (NatSIP) a Safonau Ansawdd ar gyfer Cymhwysedd.

Mae'r fframwaith yn anstatudol ar hyn o bryd, ond byddwn yn ceisio newid hyn ar ôl ei lansio i sicrhau bod y meysydd craidd a nodir yn cael eu cydnabod fel sgiliau hanfodol (ac nid dewisol) y mae'n rhaid eu haddysgu i blant a phobl ifanc â nam ar y golwg er mwyn iddynt ffynnu, gan gefnogi'r angen i ddarparu darpariaeth arbenigol.

Rhagwelir y bydd creu un fframwaith cwricwlwm nam ar y golwg arbenigol ledled Prydain, wedi'i seilio ar fodel o annibyniaeth, grymuso a galluedd, yn creu cysondeb ac yn darparu safon aur ar gyfer addysg nam ar y golwg, gan annog ysgolion ac awdurdodau lleol i ganolbwyntio ar ganlyniadau hirdymor yn hytrach na strategaethau tymor byr sy'n meithrin dibyniaeth neu'n arbed arian.

**Felly, i gloi, mae manteision allweddol arfaethedig y fframwaith yn cynnwys:**

- Canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc sydd â nam ar y golwg i gyflawni eu potensial.
- Geirfa a rennir rheng gweithwyr nad

ydynt yn arbenigwyr a gweithwyr addysg nam ar y golwg arbenigol.

- Eglurder a chysondeb yn ansawdd darpariaeth arbenigol i bob plentyn a pherson ifanc â nam ar y golwg ledled gwledydd Prydain mewn addysg.
- Mynediad at adnoddau a rennir, gan sicrhau proses well a mwy effeithiol o rannu adnoddau a strategaethau addysgu rhwng gweithwyr proffesiynol ledled y sector.
- Dealltwriaeth gan weithwyr addysg nad ydynt yn arbenigo mewn nam ar y golwg o'r hyn sy'n ddarpariaeth nam ar y golwg dda, a'u rôl yn hwyluso hynny.

## A yw'r fframwaith newydd yn addas i'w ddefnyddio ledled gwledydd Prydain?

Mae'r fframwaith newydd wedi'i ddatblygu drwy ymgynghori ledled gwledydd Prydain, gan sicrhau cynrychiolaeth cydweithwyr arbenigol o bob un o'r gwledydd datganoledig. Roedd y gwaith ymgynghori'n cynnwys:

- Sicrhau cynrychiolaeth ledled gwledydd Prydain ar ein panel Delphi.
- Egluro bod yr iaith a ddefnyddir wedi'i chymeradwyo ac yn berthnasol ar draws pob gwlad.
- Sicrhau bod canlyniadau craidd lefel uchel yn berthnasol i bob cyd-destun cenedlaethol yng ngwledydd Prydain.
- Egluro bod y cynnwys yn annibynnol ar bolisi cenedlaethol.
- Cydnabod presenoldeb gwahanol fodelau o ddarparu gwasanaeth.

Yn ogystal â'r ymgynghori ei hun, roedd y gwaith o reoli'r prosiect yn cynnwys cydweithio gyda gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio i sefydliadau a rhwydweithiau nodedig yn y sector ar draws gwledydd Prydain, sy'n cynnwys: Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB); Cymdeithas Broffesiynol y Gweithlu Addysg Nam ar y Golwg (VIEW); Guide Dogs UK; Ymddiriedolaeth Thomas Pocklington; Cymdeithas Addysg Nam ar y Golwg yr Alban (SAVIE); Cymdeithas Addysgwyr Nam ar y Golwg Cymru (WAVIE); Awdurdod Addysg Gogledd Iwerddon (EANI); LOOK; VICTA; HabVIUK; Sefydliad Addysg UCL (IOE); Coleg Newydd Caerwrangon (NCW); Partneriaeth Genedlaethol Namau Synhwyraidd (NatSIP); Penaethiaid Gwasanaethau Synhwyraidd (HoSS); Canolfan Nam ar y Golwg Prifysgol Birmingham ar gyfer Addysgu ac Ymchwil (VICTAR); Canolfan Synhwyraidd yr Alban (SSC); Prifysgol Caeredin; Ymddiriedolaeth Sylfaen Ysbytai Addysgu Bradford; Ysgol Optometreg a Gwyddorau'r Golwg, Prifysgol Bradford.

## Sut bydd y fframwaith yn helpu plant a phobl ifanc sydd â nam ar y golwg?

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r fframwaith yn egluro ac yn diffinio elfennau o ddatblygu sgiliau arbenigol, ymyriadau a chymorth arferion gorau sy'n hanfodol i'r holl blant a phobl ifanc â nam ar y golwg ar draws yr ystod lawn o alluoedd ac anghenion.

Bydd y fframwaith yn cefnogi lles emosiynol plant a phobl ifanc â nam ar y golwg ac yn rhoi dealltwriaeth glir iddyn nhw o ganlyniadau ychwanegol, ynghyd â'u paratoi â'r sgiliau a all sicrhau eu bod nhw'n datblygu i fod yn oedolion hyderus â'r gallu i gael mynediad at dechnoleg a'i defnyddio, mynd o gwmpas yn annibynnol, rhyngweithio'n hyderus ag eraill, a bod â dealltwriaeth uchelgeisiol o'u potensial eu hunain.

Gall y fframwaith gynorthwyo ymarferwyr arbenigol i godi ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol nad ydynt yn arbenigo mewn nam ar y golwg, fel athrawon, am yr angen i blant a phobl ifanc â nam ar y golwg ddysgu sgiliau gan arbenigwyr sy'n eu galluogi i gael mynediad at y cwricwlwm a'r byd ehangach gydag annibyniaeth gynyddol. Gall y fframwaith hefyd gynorthwyo trafodaethau o ran sut a phryd gall y sgiliau hyn gael eu darparu gan arbenigwyr a'u hatgyfnerthu gan weithwyr nad ydynt yn arbenigwyr.

## Sut bydd y fframwaith yn helpu rhieni plant a phobl ifanc sydd â nam ar y golwg?

Mae'r fframwaith yn galluogi rhieni i ddeall llwybrau cymorth ar gyfer eu plentyn a'r gwasanaethau sy'n rhan o ddarparu'r cymorth hwnnw mewn cyd-destun cenedlaethol y cytunir arno. Mae'n darparu iaith gyffredin/geirfa a rennir, gan alluogi rhieni, gweithwyr nam ar y golwg proffesiynol, athrawon dosbarth a swyddogion AAA i gyfathrebu'n fwy effeithiol wrth drafod anghenion cymorth plentyn.

Mae'r ddealltwriaeth gynyddol hon o'r meysydd ffocws ar gyfer dysgu plentyn yn galluogi rhieni i deimlo'n fwy hyderus/cyfforddus wrth gwrdd â gweithwyr proffesiynol i drafod cynnydd eu plentyn. Gall helpu rhieni i ddeall amcanion hirdymor gweithwyr arbenigol o ran helpu plant a phobl ifanc â nam ar y golwg i gynyddu eu hannibyniaeth, ym myd addysg a'r byd yn ehangach, wrth baratoi i fod yn oedolyn.

Mae'r fframwaith hefyd yn ganllaw i rieni o ran ymgysylltu â gweithgareddau eu plant gartref wrth iddyn nhw ddysgu sgiliau a gwybodaeth newydd.

**Felly, i gloi, bydd y fframwaith:**

- Yn helpu rhieni i ddeall beth mae eu plentyn yn ei ddysgu/sut gallai arbenigwyr gefnogi eu plentyn.
- Yn cynorthwyo rhieni i gefnogi dysgu eu plentyn.
- Yn galluogi arbenigwyr/rhieni i fod â

dealltwriaeth a rennir o ganlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc â nam ar y golwg.

- Yn rhoi iaith gyffredin i rieni ac arbenigwyr am addysgu sgiliau arbenigol.
- Yn datblygu dealltwriaeth gyffredin o ddiben a threfniadaeth addysg sgiliau arbennig.

## Sut bydd y fframwaith yn helpu gweithwyr proffesiynol ym maes addysg gyda phlant a phobl ifanc sydd â nam ar y golwg?

Bydd cyflwyno fframwaith ledled gwledydd Prydain yn galluogi cydweithwyr ar draws y sector i sicrhau bod anghenion cymorth plant a phobl ifanc â nam ar y golwg yn cael eu bodloni ar draws pob maes canlyniad fel sy'n briodol. Mae canlyniadau'r fframwaith yn rhai lefel uchel a throsfwaol yn fwriadol er mwyn caniatáu i wasanaethau ac ysgolion allu addasu darpariaeth bresennol neu ddatblygu gweithgareddau ac adnoddau newydd i gyd-fynd â'r meysydd canlyniad craidd trosfwaol hyn. Mae hyn yn parhau i annog hyblygrwydd dull ar draws gwledydd Prydain ac yn gwerthfawrogi'r lefel o annibyniaeth sydd gan weithwyr proffesiynol ar hyn o bryd wrth gynllunio darpariaeth lwyddiannus ac unigol i blant a phobl ifanc â nam ar y golwg.

Felly, ni fydd y fframwaith yn rhoi manylion ynghylch sut i gyflawni canlyniadau, gan fod hyn, ynghyd â dyrannu adnoddau, yn dal i fod yn ôl disgresiwn y gwasanaeth neu'r gweithiwr sy'n gweithio gyda'r plant a phobl ifanc â nam ar y golwg. Bydd yn sicrhau bod cymorth yn parhau i gael ei ddarparu ar sail angen unigol. Bydd dyraniad lefelau staffio a chymorth yn dal i gael ei lywio fel y mae nawr e.e. un ai gan feini prawf NatSIP a/neu gan farn broffesiynol. Yn hytrach, bydd y fframwaith yn cynnig am y tro cyntaf eirfa a rennir ar gyfer gweithwyr nad ydynt yn arbenigwyr ac arbenigwyr addysg nam ar y golwg ledled gwledydd Prydain, ynghyd â nodi canlyniadau allweddol i blant a phobl ifanc â nam ar y golwg rhwng 0-25 oed.

Nod y fframwaith a'r hyb adnoddau cysylltiedig yw annog a chefnogi cydweithwyr mewn addysg nam ar y golwg i rannu strategaethau ac adnoddau maen nhw wedi'u datblygu drwy ddarparu hyb ar-lein hygyrch am ddim y gallant lanlwytho adnoddau iddo a'i ddefnyddio fel man cyfeirio cyntaf ar gyfer dod o hyd i adnoddau a gwybodaeth sy'n berthnasol i addysgu sgiliau arbenigol y cwricwlwm. Gobeithiwn y bydd hyn yn annog diwylliant o rannu gwybodaeth a fydd yn ei dro yn arbed amser, yn gwella effeithlonrwydd ac yn darparu lefel o gysondeb yn yr hyn sy'n cael ei addysgu ledled Prydain. Dros amser, gellir defnyddio gwaith datblygu yn y meysydd fframwaith ehangach i lenwi'r fframwaith a'r hyb adnoddau ymhellach i greu storfa o wybodaeth ar gyfer y sector. Yma, bydd modd i gydweithwyr fanteisio ar adnoddau eraill a ddefnyddir i "lenwi" meysydd o'r fframwaith ar gyfer eu gwasanaeth/lleoliad eu hunain. Bydd hyn yn cynnig rhyddid dewis o ran sut i ddarparu'r meysydd ar draws gwledydd Prydain.

Bydd y fframwaith yn anstatudol i ddechrau, ond byddwn yn ceisio cyflawni statws statudol neu statws canllawiau iddo ar ôl ei lansio i sicrhau bod y meysydd craidd a nodir yn cael eu cydnabod fel sgiliau hanfodol, ac nid sgiliau dewisol, y mae'n rhaid eu haddysgu i blant a phobl ifanc â nam ar y golwg er mwyn iddynt ffynnu, gan gefnogi'r angen i ddarparu darpariaeth arbenigol. Fel y nodwyd yn flaenorol, ein nod yw y bydd y fframwaith yn integreiddio ac yn cyd-fynd â'r cwricwlwm academaidd y mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawl iddo.

## Sut datblygwyd fframwaith newydd gwledydd Prydain?

Cynhaliwyd ymgynghoriad ledled gwledydd Prydain dros gyfnod o 10 mis, gan fanteisio ar arbenigwyr o bob rhan o'r sector addysg nam ar y golwg, a oedd yn cynrychioli gwahanol rolau a mathau o arbenigedd, ynghyd â phobl ifanc a rhieni.

Wrth lunio'r fframwaith, defnyddiodd cydweithwyr o VICTAR ym Mhrifysgol Birmingham ddull Delphi at ddibenion ymgynghori, a ddefnyddiwyd ar gyfer gwaith tebyg yn UDA. Mae dull Delphi yn ddull a ddefnyddir i ffurfio consensws ar bwnc cymhleth. Mae Cymdeithas Seicolegol Prydain yn argymell panel gyda rhwng 10 a 50 o gyfranogwyr ('panelwyr') wrth ddefnyddio dull Delphi. Caiff cyfranogwyr eu dewis am eu harbenigedd ar y pwnc, a chânt eu holi neu eu cyfweld sawl tro fel rhan o'r 'cam cynhyrchu syniadau', a chaiff canlyniadau'r ymgynghoriad eu mireinio bob tro tan y pwynt lle caiff consensws cyffredin ei ffurfio. Os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy am ddull Delphi, yna mae adnodd defnyddiol ar wefan Cymdeithas Seicolegol Prydain (**bit.ly/3GFKKk8**).

Cymerodd 50 o gynrychiolwyr o holl wledydd Prydain ran, er mwyn glynu at yr argymhelliad hwn.

Dechreuodd cam 1 yr ymgynghoriad ym mis Chwefror 2021, yn dilyn proses drylwyr i nodi cynrychiolwyr ar gyfer y panel arbenigol o weithwyr proffesiynol, ynghyd â chynrychiolwyr pobl ifanc a rhieni/gofalwyr. Roedd yn hanfodol sicrhau cynrychiolaeth deg ledled gwledydd Prydain yn adlewyrchu'r ystod o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc â nam ar y golwg a'u llwyth achosion. Mae'r adran: **Pa sefydliadau / partneriaid oedd yn hanfodol yn natblygiad y fframwaith?'** yn rhannu rhagor o fanylion am sefydliadau a gyfrannodd. Gweithiodd VICTAR yn agos gyda'r Rheolwr Prosiect a'r Grwpiau Cyfeirio i amlinellu'r mathau o rolau, arbenigedd proffil a lleoliadau y dylid eu cynrychioli, a bu'n adolygu ymatebion a gyflwynwyd i holiadur mynegi diddordeb er mwyn nodi cydweddiad da ar gyfer y proffiliau a nodwyd.

Wrth ddewis aelodau panel, ystyriwyd ystod o ffactorau i sicrhau cynrychiolaeth dda ar draws y sector, gan gynnwys

- Y wlad y maent wedi'u lleoli ynddi (gan sicrhau cynrychiolaeth dda ym mhedair gwlad Prydain).
- Y math o ardal roedden nhw'n gweithio ynddi (gwledig, dinas fawr).

- Rôl broffesiynol (e.e. athrawon cymwys ar gyfer plant a phobl ifanc â nam ar y golwg, arbenigwyr cymhwysedd cymwys cofrestredig, ac ati).
- Lleoliad(au) roeddent yn gweithio ynddynt (e.e. blynyddoedd cynnar, cynradd prif ffrwd, cynradd prif ffrwd gydag uned arbenigol ac ati).
- Nifer o flynyddoedd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc â nam ar y golwg.
- Nifer o flynyddoedd o brofiad arweinyddiaeth perthnasol.
- A oedden nhw'n cynnal llwyth achosion gweithredol.
- Natur y llwyth achosion.
- Nodweddion unigolyn (e.e. rhywedd, anabledd, ethnigrwydd).

**Roedd tri cham i'r ymgynghoriad:**

**Cam 1: Grwpiau Ffocws**

Yn ystod yr ymgynghoriad ar gam 1, cynhaliodd tîm y prosiect naw grŵp ffocws ar-lein, gan gasglu barn arbenigol 50 o aelodau panel. Trafododd y grwpiau ffocws hyn y themâu canlynol:

**Cwricwlwm arbenigol yng ngwledydd Prydain**

- Pa ddarpariaeth arbenigol sydd ar gael ar hyn o bryd
- Pam fod angen mewnbwn arbenigol ar blant a phobl ifanc â nam ar y golwg
- Bylchau mewn darpariaeth bresennol y dylid mynd i'r afael â nhw.

**Ffiniau meysydd/canlyniadau i'w cynnwys**

- Diffinio gwahanol feysydd y fframwaith.
- Sicrhau bod y fframwaith yn ateb sbectrwm o anghenion y garfan o blant a phobl ifanc â nam ar y golwg
- Sicrhau bod y fframwaith yn parchu cyd-destunau cenedlaethol a gwahaniaethau diwylliannol.

**Enw'r fframwaith**

- Awgrymu ac ystyried enwau priodol ar gyfer y fframwaith gan ystyried defnydd ledled gwledydd Prydain.

Ar ôl i'r grwpiau ffocws ddod i ben, cynhyrchwyd trawsgrifiadau gair am air o'r recordiadau Zoom. Cydweithiodd aelodau o dîm y prosiect i ddadansoddi'r trawsgrifiadau, gan nodi yn gyntaf gydrannau allweddol o'r fframwaith drwy ddull anwythol, ac yna defnyddio cwricwla a llenyddiaeth sy'n bodoli i helpu i drefnu'r rhain yn gategorïau. Drwy'r dadansoddiad hwn, nodwyd 10 maes allweddol o'r fframwaith ynghyd ag is-themâu a ddefnyddir i ddangos pob un o'r meysydd hyn.

**Camau 2 a 3: Arolygon Ar-lein**

Yn ystod cam 2, cyflwynwyd amlinelliad cychwynnol o'r fframwaith a oedd wedi'i ddatblygu yn ystod cam 1 i'r cyfranogwyr. Roedd hyn yn cynnwys rhoi adborth ar:

- Y meysydd canlyniad a nodwyd.
- Y teitl a'r disgrifiad a roddwyd i bob maes canlyniad.
- Yr enghreifftiau a roddwyd i gyfleu pob maes.

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hefyd ystyried defnydd posibl o'r fframwaith ar gyfer gwahanol 'astudiaethau achos' o blant a phobl ifanc i brofi ei ddefnyddioldeb, cyn darparu adborth a safbwyntiau cyffredinol ar yr enw mwyaf priodol.

## Pam ydyn ni'n datblygu hyb adnoddau ar-lein i gyd-fynd â'r fframwaith?

Pan drafodwyd y syniad o un fframwaith cwricwlwm nam ar y golwg arbenigol ledled Prydain yn wreiddiol, daeth nifer o athrawon cymwys ar gyfer plant a phobl ifanc â nam ar y golwg, gwasanaethau ac ysgolion aton ni yn cynnig rhannu adnoddau roedden nhw eisoes wedi'u datblygu. Cyn dechrau'r prosiect, nododd gwaith ymgynghori pellach gyda'r sector yr angen i adnoddau fod ar gael mewn un lle canolog y gellid ei ddefnyddio un ai i ddal adnoddau a grëwyd gan y sector neu i gyfeirio at adnoddau sydd eisoes yn bodoli: hyb adnoddau.

Nod y fframwaith a'r hyb adnoddau cysylltiedig yw annog a chefnogi cydweithwyr i rannu strategaethau ac adnoddau maen nhw wedi'u datblygu gyda'r sector ehangach drwy ddarparu hyb ar-lein hygyrch am ddim.

Gall cydweithwyr yn y sector lanlwytho adnoddau i'r hyb a'i ddefnyddio fel pwynt cyfeirio cychwynnol er mwyn dod o hyd i adnoddau a gwybodaeth sy'n berthnasol i addysgu sgiliau arbennig.

Gobeithir y bydd hyn yn annog diwylliant o rannu gwybodaeth yn y sector a fydd yn arbed amser, ac yn gwella effeithlonrwydd a chysondeb yn yr hyn sy'n cael ei addysgu ledled Prydain. Rydyn ni hefyd yn gobeithio nodi lle mae diffyg adnoddau penodol, e.e. mewn meysydd canlyniad penodol, a dros amser annog datblygu adnoddau newydd i lenwi'r bylchau.

## Pa adnoddau fydd wedi'u cynnwys yn yr hyb a sut galla i gyfrannu adnodd?

Bydd yr hyb adnoddau ar-lein yn cynnwys ystod eang o adnoddau sy'n berthnasol i bob maes o'r fframwaith. Mae enghreifftiau dangosol o adnoddau yn cynnwys:

- dogfen un dudalen i helpu i addysgu agwedd ar sgiliau byw'n annibynnol
- cynllun gwaith i gefnogi addysgu am ddefnyddio darn o dechnoleg gynorthwyol
- cyfres o ddeunyddiau sy'n cefnogi asesu neu osod canlyniadau
- tracwyr cynnydd
- pecynnau adnoddau ar gyfer addysgu – e.e. Braille, cyffwrdd-deipio
- rhestrau gwirio – e.e. offer arholiadau, pontio, technoleg gwybodaeth, dosbarth hygyrch
- cardiau gweithgaredd e.e. i gefnogi hunan-eiriolaeth
- templedi e.e. llythyrau cyfeirio
- canllawiau i rieni e.e. deall nam cortigol ar y golwg

**Os hoffech rannu eich syniadau a'ch adnoddau i'w cynnwys yn yr hyb adnoddau, bydden ni'n falch o glywed gennych chi. Y mwyaf o adnoddau gallwn ni eu rhannu a'u rhoi ar gael, yr hawsaf a'r mwyaf effeithlon gallwn ni fod yn rhannu gwybodaeth ac adnoddau â'r plant a'r bobl ifanc rydyn ni'n eu cefnogi.**

E-bostiwch ni drwy: cypf@rnib.org.uk gydag 'Adnoddau Nam ar y Golwg' fel pwnc.

- Os hoffech ddarparu adnoddau ond eich bod yn ansicr a fyddai eich adnodd o fudd i eraill, neu os ydych chi'n meddwl bod angen ei fireinio, cysylltwch â ni am sgwrs gychwynnol gan fod ganddon ni grŵp cymwynasgar o weithwyr proffesiynol o'r maes sydd wrth law i'ch cefnogi a chynnig cyngor neu arweiniad os oes angen.

## Beth yw'r hyb adnoddau ar-lein a sut mae cael mynediad ato?

**Mae'r hyb adnoddau proffesiynol ar-lein yn lletya ac yn cyfeirio at adnoddau a theclynnau y gellir eu defnyddio i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r fframwaith newydd yn ymarferol.**

Drwy siarad gydag athrawon arbenigol ar gyfer dysgwyr â nam ar y golwg, darganfu VIEW fod ystod eang o adnoddau a strategaethau yn cael eu datblygu i gefnogi'r gwaith o addysgu fframwaith cwricwlwm arbenigol mewn ysgolion a gwasanaethau unigol nam ar y golwg ledled gwledydd Prydain. Mae'r mentrau hyn yn digwydd yng ngwasanaethau cymorth unigol awdurdodau lleol ac mewn ysgolion ar gyfer disgyblion â nam ar y golwg yn hytrach nag fel rhan o strategaeth ehangach gydlynol. Rydyn ni'n gwybod bod yr athrawon dan sylw yn awyddus i rannu eu syniadau a'u hadnoddau ac i ddysgu gan ei gilydd.

Mae'r hyb adnoddau fframwaith ar gyfer plant a phobl ifanc â nam ar y golwg Bookshare yn annog ac yn cefnogi cydweithwyr yn y sector i allu rhannu teclynnau ac adnoddau sydd wedi'u datblygu gan unigolion neu wasanaethau gyda'r sector yn ehangach. Bydd modd i ddefnyddwyr gyflwyno adnoddau i'w lanlwytho i'r wefan neu argymell adnoddau sydd ar gael y gallwn gyfeirio atynt ym mhob un o'r 11 o feysydd y fframwaith ar gyfer plant a phobl ifanc â nam ar y golwg.

Gobeithiwn y bydd yn cael ei groesawu gan y sector a'i ddefnyddio fel man cyfeirio cychwynnol ar gyfer dod o hyd i adnoddau a gwybodaeth sy'n berthnasol i addysgu sgiliau arbenigol y cwricwlwm. Dymunwn annog diwylliant o rannu gwybodaeth a fydd yn ei dro yn arbed amser i'r rhai sy'n gweithio â phlant a phobl ifanc â nam ar y golwg ac yn gwella effeithlonrwydd a chysondeb yn yr hyn sy'n cael ei addysgu ledled gwledydd Prydain.

Er mwyn cael mynediad at hyb adnoddau y fframwaith ar gyfer plant a phobl ifanc â nam ar y golwg yn RNIB Bookshare ewch i: **bit.ly/3BdLoEv**

## Pa fodel damcaniaethol sy'n sail i'r fframwaith hwn?

Yn sail i'r fframwaith mae'r model Mynediad at Ddysgu-Dysgu cael Mynediad fel sydd wedi'i amlinellu yn ein deunydd prosiect rhagarweiniol. Mae'r model hwn wedi'i wreiddio yn y gred y dylai cymorth arbenigol i blant a phobl ifanc â nam ar y golwg ganolbwyntio ar ddau brif

ganlyniad fel llwybr at gynhwysiant cymdeithasol:

1. Mynediad at ddysgu: Sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc fynediad teg a'r gorau posib at addysg.
2. Dysgu cael mynediad: Sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc gyfleoedd i ddatblygu eu galluedd, eu llais a'u hannibyniaeth eu hunain.

Drwy'r model hwn, gallwn ddisgrifio cynnydd lle mae'r pwyslais, dros amser, yn symud o fod yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol i'r plentyn/person ifanc (sef 'mynediad at ddysgu'), iddyn nhw'n dysgu'r sgiliau sy'n eu galluogi i weithredu gyda galluedd ac annibyniaeth (ac felly y syniad o 'ddysgu cael mynediad'). Un o rolau allweddol gofalwyr ac addysgwyr (gan gynnwys addysgwyr arbenigol) yw rheoli'r cynnydd hwn drwy strwythuro amgylchedd sy'n helpu i hyrwyddo dysgu a mynediad gan geisio sicrhau hefyd bod sgiliau unigol priodol yn cael eu datblygu. Cydnabyddir y bydd y cydbwysedd hwn yn amrywio i wahanol blant a'u hoedran datblygiadol.

Mae'r model a'r fframwaith yn ceisio bod yn gynhwysol a dathlu mynediad a galluedd yn eu holl ffurfiau. Mae hyn yn wir boed hyn yn gyrhaeddiad cynnar neu'n fynegiant o ymwybyddiaeth a dewis mewn plant ifanc a phlant datblygiadol ifanc, neu ddefnyddio technoleg Braille symudol i helpu i lywio amgylchedd trefol cymhleth.

**Gallwch ddarllen mwy am y model hwn yn y dogfennau canlynol:**


McLinden, M., Douglas, G., Cobb, R., Hewett, R., Ravenscroft, J. (2016). **'Access to learning' and 'learning to access': Analysing the distinctive role of specialist teachers of children and young people with vision impairments in facilitating curriculum access through an ecological systems theory.** British Journal of Visual Impairment, 34(2), 177-195. (**bit.ly/3AUhOni**)

Douglas, G., McLinden, M., Ellis, E., Hewett, R., Wooten, A., Ware, J., ac Williams, L. (2019). **Asesiad Tystiolaeth Cyflym o effeithiolrwydd ymyriadau addysgol i gefnogi plant a phobl ifanc â nam ar eu golwg,**

Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 39/2019. (**https://bit.ly/3tpcaY2**)

Keil, S. a Cobb, R. (2019). **Learning to Access: Why we need a new UK specialist curriculum to enable**

**equitable participation in education for children and young people with vision impairment.** Papur trafod VIEW. VIEW. (**bit.ly/32U9yXX**)

## Beth yw meysydd canlyniad fframwaith allweddol?

O fewn athroniaeth eang y model Mynediad at Ddysgu - Dysgu cael Mynediad datblygwyd yr 11 maes canlynol o'r fframwaith

- Maes 1: Hwyluso Byd Cynhwysol
- Maes 2: Datblygiad Synhwyraidd
- Maes 3: Cyfathrebu
- Maes 4: Llythrennedd
- Maes 5: Cymhwysedd: Cyfeiriadedd a Symudedd
- Maes 6: Cymhwysedd: Sgiliau Byw yn Annibynnol
- Maes 7: Cael Mynediad at Wybodaeth
- Maes 8: Technoleg
- Maes 9: Iechyd: Cymdeithasol, Emosiynol, Meddyliol a Chorfforol
- Maes 10: Cymdeithasol, Chwaraeon, a Hamdden
- Maes 11: Paratoi i fod yn Oedolyn

## Pa gamau cychwynnol alla i ddechrau eu cymryd i weithredu'r fframwaith newydd yn fy ngweithle / gwasanaeth?

- Y man cychwyn amlwg yw rhannu'r fframwaith newydd gyda chydweithwyr ac ymgyfarwyddo gyda "theitlau"/iaith yr 11 maes, a beth maen nhw'n ei gwmpasu.
- Yna, byddai'n ddefnyddiol cynnal archwiliad anffurfiol o sut mae'r 11 maes yn cael eu cynrychioli/darparu ar hyn o bryd yn eich ysgol/gwasanaeth. Gallwch ystyried, er enghraifft, beth rydych chi wedi galw'r rhain yn flaenorol ac a oes bylchau.
- Yna, gallwch gynnal archwiliad o adnoddau addysgu sydd eisoes yn bodoli, gan eu rhoi nhw ym meysydd perthnasol y fframwaith.
- Efallai y byddwch yn dymuno ystyried sut gellid ysgrifennu argymhellion a chanlyniadau/targedau i blant a phobl ifanc, gan ddefnyddio iaith y meysydd fframwaith.
- Yn olaf, gallwch ystyried newid gwaith papur yr ysgol/gwasanaeth i ymgorffori iaith y fframwaith/ymyriadau sy'n briodol i faes o'r fframwaith.

## Sut mae modd olrhain cynnydd plant a phobl ifanc yn erbyn y fframwaith newydd?

Ar hyn o bryd, nid yw'r fframwaith wedi'i ddylunio i gael ei ddefnyddio yn y modd hwn. Yng ngham 2 y prosiect (2022-25), byddwn ni'n archwilio sut gall y fframwaith a'r canlyniadau cysylltiedig ddarparu dull o olrhain cynnydd pobl ifanc o bosib.

## Sut mae'r fframwaith newydd yn wahanol/yn well na'r rhai sydd ledled gwledydd Prydain ar hyn o bryd?

Mae pwysigrwydd fframwaith arbenigol sy'n cyfleu'r sgiliau unigryw sydd eu hangen ar y grŵp hwn wedi'i gydnabod yn eang ym maes addysg nam ar y golwg ers blynyddoedd lawer. Serch hynny, hyd yma, nid oes fframwaith arbenigol a gydnabyddir yn gyffredinol ar gyfer plant a phobl ifanc â nam ar y golwg yng nghyd-destun gwledydd Prydain. Gall hyn arwain at ddiffyg eglurder ynghylch yr hyn a ddylai gael ei addysgu a gan bwy, a darpariaeth addysgol anghyson, gyda gwahanol randdeiliaid yn ei chael yn anodd cyfathrebu â'i gilydd yn defnyddio iaith a rennir.

Mae'r fframwaith ar gyfer plant a phobl ifanc â nam ar y golwg yn ffurfio sylfaen gref ar gyfer sicrhau hawl teg i blant a phobl ifanc â nam ar y golwg ledled gwledydd Prydain, drwy egluro a diffinio'r elfennau o ddatblygiad sgiliau arbenigol, ymyriadau ac arferion gorau y gellir eu trafod gan ddefnyddio geirfa a rennir, ac mae Maes 1 y fframwaith yn unigryw yn ei bwyslais ar hwyluso byd mwy cynhwysol. Gobeithiwn y bydd y defnydd o un fframwaith yn y maes yng ngwledydd Prydain yn darparu sail gadarn y gellir ceisio statws statudol arni.

## Sut bydd y fframwaith yn cael ei werthuso?

Bydd y fframwaith yn cael ei werthuso mewn sawl ffordd. Bydd gwerthusiad meintiol yn edrych ar ba mor gyfarwydd yw'r fframwaith, y defnydd ohono a lawrlwythiadau o'r fframwaith ac adnoddau. Dros gyfnod cam 2 y prosiect, 2022-2025, bydd effaith ansoddol y fframwaith yn cael ei gwerthuso drwy ddefnyddio ystod o ddulliau gan gynnwys ymchwil astudiaethau achos.

## Pa sefydliadau/partneriaid oedd yn hanfodol yn natblygiad y fframwaith?

Yn ogystal â holl gyfranogwyr yr ymgynghoriad, drwy gydol cam 1 y prosiect, rydym wedi ymgysylltu â'r sefydliadau a'r rhwydweithiau canlynol i gefnogi datblygiad y fframwaith.

- Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB)
- Canolfan Nam ar y Golwg ar gyfer Addysgu ac Ymchwil Prifysgol Birmingham (VICTAR)
- Y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer y Gweithlu Addysg Nam ar y Golwg (VIEW)
- Ymddiriedolaeth Thomas Pocklington (TPT)
- Cymdeithas Addysg Nam ar y Golwg yr Alban (SAVIE)
- Guide Dogs UK
- Cymdeithas Addysgwyr Nam ar y Golwg Cymru (WAVIE)
- Awdurdod Addysg Gogledd Iwerddon (EANI)
- LOOK VICTA HabVIUK
- Sefydliad Addysg (IOE) UCL
- Coleg Newydd Caerwrangon (NCW)
- Y Bartneriaeth Genedlaethol Namau Synhwyraidd (NatSIP)
- Penaethiaid Gwasanaethau Synhwyraidd (HoSS)
- Canolfan Synhwyraidd yr Alban (SSC)
- Prifysgol Caeredin
- Ymddiriedolaeth Ysbytai Athrofaol Bradford
- Ysgol Optometreg a Gwyddorau'r Golwg, Prifysgol Bradford.

## Cwestiynau pellach?

Os oes gennych gwestiynau pellach am ddatblygiad y fframwaith, cysylltwch â ni: **cypf@rnib.org.uk**

RNIB

**Dilynwch ni arlein:**

facebook.com / rnibuk

twitter.com / RNIB

youtube.com / user / rnibuk

# rnib.org.uk/cfvi

RE220108

© RNIB elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (226227), Yr Alban (SC039316), Ynys Manaw (1226). Hefyd yn weithredol yng Ngogledd Iwerddon.